Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

shrn.org.uk

# Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion

## Rhannwch eich Llwyddiant a'ch Effaith:

## Sut i Gyfrannu Astudiaeth Achos eich Ysgol i'r Rhwydwaith





Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles / Welsh Network of Health and Well-being Promoting Schools
DECIPHer — Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement — A Public Health Research Centre of Excellence
GIG Cymru NHS Wales — Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales
Cancer Research UK
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

## Ynglŷn â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Mae'r Rhwydwaith yn cydweithredu ag ysgolion i ddarparu'r data, y wybodaeth a'r gefnogaeth y mae eu hangen i wella iechyd a lles eu dysgwyr yn sylweddol. Mae ysgolion ledled Cymru wedi integreiddio data'r Rhwydwaith i'w cynlluniau datblygu yn llwyddiannus, gan roi amrywiaeth o fentrau ac ymyriadau ar waith i wella iechyd a lles dysgwyr.

I ddysgu rhagor, ewch i shrn.org.uk.

## Diben y Canllaw hwn

Diben y ddogfen hon yw rhoi canllaw i ysgolion ar sut i rannu'u mentrau llwyddiannus a'r effaith gadarnhaol a gawsant ar iechyd a lles dysgwyr drwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

## Porwch ein Hastudiaethau Achos

Darganfyddwch sut mae ysgolion eraill wedi defnyddio data'r Rhwydwaith yn llwyddiannus a rhannu eu storïau trwy ddarllen ein Llyfryn Astudiaethau Achos a Blog.

Mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu'r amrywiol ffyrdd y mae ysgolion wedi gwella iechyd a lles myfyrwyr, gan gynnig ysbrydoliaeth a chipolygon ymarfer ar gyfer mentrau eich ysgol chi.

Mae'r Rhwydwaith yn croesawu astudiaethau achos gan ysgolion cynradd ac uwchradd y Rhwydwaith i arddangos a rhannu'u defnydd o Ddata Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith a'u Hadroddiadau, a gwerth ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth.

## Pam Rhannu Ein Stori am y Rhwydwaith?

Mae rhannu eich stori am y Rhwydwaith yn ffordd rymus o arddangos eich arbenigedd a'r effaith gadarnhaol a gafodd eich mentrau ar iechyd a lles dysgwyr.

Trwy gyfrannu eich cipolygon, gallwch:

- **Ysbrydoli ac arwain pobl eraill:** Gall eich profiadau gynnig arweiniad gwerthfawr i ysgolion eraill sy'n wynebu heriau tebyg. Oherwydd natur gydweithredol cymuned y Rhwydwaith, mae'r rhai sy'n rhannu eu hastudiaethau achos yn gweld eu bod yn ennill cipolygon newydd eu hunain trwy'r broses o rannu'u harbenigedd.
- **Gwella'ch Portffolio:** Mae astudiaeth achos gelfydd yn dangos eich gallu i ddadansoddi a chyfathrebu'n effeithiol, gan hybu eich proffil proffesiynol.
- **Dylanwadu ar Newid:** Gall eich stori ddylanwadu ar arferion a pholisïau addysg, gan gyfrannu at amgylchedd ysgol iachach.
- **Cael Cydnabyddiaeth:** Caiff eich ysgol gydnabyddiaeth trwy dystysgrif gan y Rhwydwaith, yn amlygu ymroddiad eich staff a dysgwyr. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dangos cyfraniad at gyfnewid gwybodaeth gyda'r Rhwydwaith, gan hyrwyddo'ch ysgol fel amgylchedd dysgu cydweithredol, sy'n rhannu'i harbenigedd ac yn annog deialog agored. Ar lefel unigol, mae cyflwyno astudiaeth achos yn ffordd ragorol o adeiladu résumé broffesiynol a phroffil allanol.
- **Ei rhannu fel Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP):** Defnyddiwch eich astudiaeth achos i wella sgiliau a gwybodaeth eich staff.
- **Ei defnyddio ar gyfer y Cyfryngau a Chyfathrebu a dathlu eich llwyddiant:** Mae ysgolion wedi cael gwerth mawr o ddefnyddio'u hastudiaethau achos ar gyfer y Rhwydwaith at ddiben cyfathrebu e.e. recriwtio i'r ysgol; gwasanaethau ysgol; cyfathrebu â rhieni/gofalwyr, digwyddiadau a chyfarfodydd llywodraethwyr. Yn nodedig, denodd ein cyfres ddiweddaraf sylw Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru a chafodd ei chrybwyll ar newyddion y BBC ac ITV.
- **Darparu Tystiolaeth ar gyfer Hunanwerthuso ac Arolygiadau Ysgol:** Defnyddiwch eich astudiaeth achos fel tystiolaeth o ddatblygiad yr ysgol yn ystod arolygiadau, gan ddangos eich ymrwymiad i wella iechyd a lles myfyrwyr.

## Gweithio gyda chi i gyhoeddi eich Astudiaeth Achos

Ein nod yw gwneud y broses hon mor hawdd a syml â phosibl. Rydym yn anelu at sicrhau bod rhannu eich llwyddiant yn brofiad hwylus a buddiol.

**Dyma beth oedd gan Huw Eifion Evans, Cydlynydd Ysgolion Iach Conwy, i'w ddweud am daith gyffrous cydweithio â'r Rhwydwaith i greu eu hastudiaethau achos:**

“Ni fyddai cydweithredu â’r Rhwydwaith i ddatblygu fy astudiaeth achos wedi gallu bod yn haws. Roedd y tîm yn gefnogol ac yn broffesiynol drwy’r cyfan, felly roedd y broses yn effeithlon ac yn bleserus. Roedd rhannu sut mae data’r Rhwydwaith wedi llywio ein gwaith yn teimlo’n ffordd ystyrlon o gyfrannu at y sgwrs ehangach am arferion da. Os oes gennych stori i’w hadrodd, yn sicr, rhannwch hi – wyddoch chi fyth pwy y gallai eu hysbrydoli!”

## Sut i gyflwyno’ch Astudiaeth Achos

1. **Trefnu trafodaeth:** Trefnwch alwad gyflym, 15 munud, gyda Rheolwr Ymgysylltu’r Rhwydwaith i amlinellu eich astudiaeth achos.
2. **Ateb cwestiynau:** Atebwch y cwestiynau rydym ni wedi’u paratoi ar gyfer astudiaethau achos (tua 10-15 ohonynt) wrth eich pwysau ac e-bostiwch eich ymatebion neu dewiswch gyfweliad dros y ffôn.
3. **Adolygu a golygu:** Bydd tîm y Rhwydwaith yn adolygu eich cyflwyniad yn brydlon, gan olygu fel y bo angen o ran darllenadwyedd, yna byddant yn anfon drafft terfynol atoch i’w gymeradwyo.
4. **Cyhoeddi:** Ar ôl ei chymeradwyo, bydd eich astudiaeth achos yn cael ei chyhoeddi’n ddwyieithog ar wefan y Rhwydwaith a’i rhannu trwy ein sianeli cyfathrebu, a’i chynnwys ar draws ein hadnoddau digidol.
5. **Dosbarthiad:** Gallwch ddosbarthu a defnyddio’r astudiaeth achos o fewn cymuned yr ysgol a’ch rhwydweithiau ehangach.

## Ymunwch â ni i arddangos effaith gadarnhaol eich mentrau ar iechyd a lles dysgwyr!

## Cysylltwch â Ni Heddiw!

Os hoffech gymryd rhan ym mhroses yr astudiaethau achos neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses, cysylltwch â Rheolwr Ymgysylltu'r Rhwydwaith: Charlotte Wooders.

## Edrychwn ymlaen at gyhoeddi eich astudiaeth achos cyn bo hir!







**Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**
SBARK, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ
**The School Health Research Network (SHRN)**
SPARK, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

shrn.org.uk

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion
SPARC
Heol Maindy
Caerdydd
CF24 4HQ

shrn.org.uk

SHRN@cardiff.ac.uk

SHRN Wales

Cedwir pob hawl.
I amddiffyn cyfrinachedd, modelau sy'n ymddangos ym mhob ffotograff. Cyhoeddwyd gyntaf gan y Rhwydwaith © 2025.